

Adroddiad Materion Addysg

1. Adroddiad Blynyddol Estyn 2017-18

Mae safon ysgolion cynradd wedi gwella ond dim ond hanner yr ysgolion uwchradd gafodd eu graddio yn dda neu yn arbennig y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl arolygwyr. Mae Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Estyn, Meilyr Rowlands, wedi dweud fod y gwelliannau yn "galonogol" gydag wyth allan o 10 ysgol gynradd wedi'i graddio'n dda neu well. Mae nifer yr ysgolion **cynradd** sy'n cael eu hystyried yn arbennig wedi dyblu ers y llynedd: o 4% i 8%. Yn ôl y canlyniadau mae nifer yr ysgolion **uwchradd** sydd wedi'u graddio'n dda neu'n well wedi aros yr un fath. Mae'r adroddiad yn dweud mewn hanner yr ysgolion uwchradd fod:

- **Gwendid yn y dysgu ac asesu;**
- **Diffyg cysondeb yn yr arweinyddiaeth;**
- **Nad yw'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn llwyddo yn ôl eu gallu erbyn iddyn nhw gyrraedd oed ysgol orfodol.**

Mae **lles disgyblion** yn cael ei adnabod fel cryfder mewn ysgolion cynradd ac fe gafodd bron y cyfan eu graddio'n dda neu'n wych yn yr ardal yma.

2. Safon Uwch

Gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr. Ers cyhoeddi'r Adolygiad o Gymwysterau (2012), gwnaed diwygiadau i Safon Uwch a Safon Uwch Gyfrannol yng Nghymru. A)Yng Nghymru, mae cynnwys pynciau Safon Uwch yn debyg iawn i gynnwys pynciau yn Lloegr, ond mae safbwynt Cymru yn cael ei astudio lle bo'n briodol. B)Yng Nghymru, mae pynciau Safon Uwch yn cadw asesiadau ymarferol neu rai ar wahân i arholiad pan fyddant yn asesu rhan bwysig o'r pwnc, gyda'r asesiadau hyn yn cyfrannu tuag at y radd derfynol. Yn Lloegr, trwy arholiad ar ddiwedd y cwrs yn bennaf y cynhelir yr asesiad ar gyfer y cymwysterau diwygiedig. C)Hefyd, yng Nghymru, mae'r cyfnod Safon Uwch Gyfrannol yn cyfrif 40% o'r Safon Uwch cyfan, ond yn Lloegr, nid yw'r canlyniadau Safon Uwch Gyfrannol yn cyfrif at y canlyniadau Safon Uwch.

3. Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol

Lansiodd Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol yn swyddogol 16 Mai, 2018. Penodwyd Dr Sue Davies fel Cadeirydd yr Academi ar 1 Mai 2018. Ni fydd yn darparu hyfforddiant ond bydd presenoldeb ar-lein gref. Amcanion yr Academi fydd: a) sicrhau bod rhaglenni ar gael i gefnogi datblygiad arweinyddiaeth a chomisiynu darpariaeth addas lle mae bylchau; b) sicrhau ansawdd darpariaeth drwy broses gymeradwyo; c) hyrwyddo defnydd a hygyrchedd gwaith ymchwil arweinyddiaeth ac arfer gorau yn genedlaethol a rhyngwladol; ch) cynnig cymorth a chynghor ar lwybrau gyrfa arweinyddiaeth; d) creu cymuned o gyfoedion a chynnig gwybodaeth a chynghor. Disgwylir y bydd rhaglenni yn weithredol yn 2019.

4. Datganoli cyflog ac amodau gwaith athrawon i system addysg Cymru

Cafodd Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ei ddiwygio gan Ddeddf Cymru 2017, a thrwy hynny datganolwyd pwerau i Gymru. Ers mis Medi 2018, Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am bennu cyflog ac amodau gwaith athrawon yng Nghymru. Bwriedir defnyddio'r pwerau hyn o fis Medi 2019 ymlaen gan greu system fydd wedi'i theilwro i Gymru.

5. **Dogfen Ymgynghorol Llywodraeth Cymru, Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol.** (gweler fy ymatebion yn y ddogfen atodol).

6. **Dogfen Ymgynghorol Llywodraeth Cymru, Y Cwricwlwm Newydd** (gweler fy ymatebion yn y ddogfen atodol).

7. **Materion Eglwysi Rhyddion.** Oherwydd materion teuluol, nid oedd yn bosib i mi eleni fynychu'r cwrs preswyl FCEC (Pwyllgor Addysg Eglwysi Rhyddion - Lloegr) yng Ngholeg Woodbrooke, Birmingham. Anfonais serch hynny ddogfennaeth at ysgrifennydd FCEC er mwyn ei diweddarau ar ddatblygiadau yng Nghymru.